Cyngor Cymuned Llanberis

# CYNLLUN HYFFORDDIANT

Paratowyd y cynllun hyrddi yma yn unol a chyngor a gyhoeddwyd gan Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Penderfynwyd yn unfrydol fod disgwyl i bob Cynghorydd fynychu un cwrs yn y flwyddyn 2022-23 ac yna dau gwrs y flwyddyn ganlynol 2023-24.
Mater personol i'r aelodau fydd dewis cwrs, yn ddiweddarach bwriedir gofyn i aelodau fynychu cyrsiau penodol lle credir fod bylchau o ran hyfforddiant. Dylai mynychu'r cyrsiau ehangu gwybodaeth yr aelodau am ffyrdd o weithredu, ymddwyn a chymhwyso i wasanaethu eu cymuned yn well. Dylai hyfforddiant wella'r ffordd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth o ansawdd safonol i'r cyhoedd.
Adolygir y cynllun yn flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau yn addas a'i fod yn darparu ar gyfer anghenion newidiol Cynghorwyr.

Gwneir yn siwr y bydd digon o gyllideb ar gyfer yr hyfforddiant yn ôl y galw o hyn i ddiwedd Mawrth 2024, ac yna caiff ei adolygu wrth dargedu cyrsiau arbennig i aelodau penodol.

Tachwedd 2022
Cofnodion 6.2

Llinos Haf Jones Cadeirydd Dei Tomos Clerc